

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2022
15 Mawrth 2022, 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Elin Jones, Glyn Griffiths, Dafydd Watts

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Watts ddiddordeb yn eitem 5.1 gan ei fod yn byw gyferbyn â chae Garreg Isaf sydd wedi cael ei grybwyll fel safle tai posibl ar gyfer datblygiad tai yn Llanfrothen.

3. Ymddiheuriadau

Dim

4. Cadarnhau Cofnodion 17 Ionawr 2022

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Elin Jones

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech

Derbyniwyd nifer o sylwadau gan drigolion lleol yn dilyn derbyn cynllun diwygiedig gan ADRA gyda byngalo yn cymryd lle tŷ.

Roedd y sylwadau yn cynnwys:-

- Diogelwch y ffordd a'r fynedfa
- Mynedfa Garreg Frech
- Mynedfa gyferbyn â mynedfa Gallt y Ffrwd
- Effaith ar amwynder a phreifatrwydd preswylwyr
- Straen ychwnaegol ar garthosiaeth a dŵr

Penderfynwyd danfon llythyr at ADRA yn crynhoi'r pryderon a dderbyniwyd gan y trigolion lleol, ac annog trigolion lleol i gysylltu ag ADRA yn uniongyrchol eu hunain.

5.2 13 Garreg Frech

Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd at Mabon ap Gwynfor AS, yn dweud na fyddai'r cyngor yn medru gwneud dim am fisoedd lawer o ran cael gorchymyn arwystl ar y tŷ, oherwydd diffyg adnoddau.

Penderfynwyd gofyn i Mabon ap Gwynfor AS drefnu cyfarfod ar y cyd efo cynghorau cymuned eraill yng Ngwynedd oedd efo diffyg tai a/neu dai gwag yn eu hardaloedd, er mwyn ceisio datrys diffyg gweithrediad Cyngor Gwynedd ar y mater yma.

5.3 Y Ganolfan

Mae'n bosibl y bydd angen defnyddio'r Ganolfan ar gyfer etholiadau mis Mai.

Gan fod y gegin yn dioddef o dyllau pry, gfe gytunwyd i ofyn am bris i dynnu'r gegin a'i gwaredu.

Bydd yr offer tân yn cael gwasanaeth yn fuan.

5.4 Parcio ar y B4410 o flaen mynedfa Garreg Frech

Siaradodd y Clerc efo perchennog y cerbyd sy'n parcio o flaen mynedfa garreg Frech, ac mae'r parcio bellach wedi lleihau yn sylweddol fel nad yw'n broblem ar hyno bryd.

5.5 Polisiâu'r Cyngor Cymuned

Cafwyd amrwyiol brisiau gan gyfieithwyr allanol ar gyfer cyfieithu polisiâu. sef tua £85 am bob 1,000 o eiriau. Byddai'r gost cyfieithu felly'n sylweddol.

Cytunwyd y dylid cynnig unrhyw bolisiau a gyfieithwyd i Un Llais Cymru fel templed, a gofyn am gyfraniad ariannol gan Un Llais Cymru tuag at y gost o'u cyfieithu.

Cytunodd y Cynghorydd Nia Povey i lunio polisi bioamrywiaeth gan ddefnyddio templed Un Llais Cymru

5.6 Goryrru Llanfrothen

Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar 25 Mawrth efo swyddogion o Gyngor Gwynedd er mwyn trafod goryrru yn Llanfrothen

5.7 Ynni Twrog

Gofynnwyd a fyddai hi'n bosibl cael cynllun yn lleol tebyg i'r un ym Methesda, ble y gall trigolion lleol gael budd o unrhyw gynllun. Mae arbenigwyr o gwmni Hydro i drafod y cynllun ym Methesda yn fuan. Bwriedir trefnu cyfarfod yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn trafod hyn.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Iona ŵr 2022 £239.52

TWE **£60.00**

6.2 Cyflog Clerc Chwefror 2022 £239.72

TWE **£59.80**

6.3 Anfoneb Dunn & Ellis £59.40

6.4 Aelodaeth Un Llais Cymru 2022/23 £87.00

6.5 Cwrs Diogelu Data Un Llais Cymru £30.00

6.6 Anfoneb Michael C Kerr, agor bedd, 28/02/2022 £400.00

6.7 Balans yn y banc 1 Mawrth 2022 £28, 337.11

6.8 Cyfrifon Banc HSBC

6.9 Balans yn y banc 4 Ionawr 2022 £29,895.07

6.10 Cyfrifon Banc HSBC

Cytunwyd i symud £20,000 o gyfrif 21041169 i gyfrif 41810197. Mae cyfrif rhif 21041177 bellach wedi cau a'r balans bychan iawn oedd ar ôl wedi mynd i gyfrif 41810197.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Dafydd Watts

7. Gohebiaeth

Dim.

8. Cynllunio

- Cais cynllunio Garreg Wen, Llanfrothen – gosod cladin llechi i'r talcen ynghyd ag addurniad llechen i'r rhan ucha.

Dim gwrthwynebiad

- Cais cynllunio Anwylfan, Croesor - diwygiad ansylweddol i ganiatâd cynllunio NP5/68/168A dyddiedig 07/12/2021 i newid edrychiadau allanol.

Nid oedd y ddogfennaeth ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri yn darparu gwybodaeth ar y diwygiadau oedd i'w gwneud i'r caniatâd cynllunio gwreiddiol. Felly, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Barc Cenedlaethol Eryri yn gofyn am eglurhad pellach

9. Materion Eraill

9.1 Cyfarfodydd Aml-leoliad

Mae'n ddisgwyliad bellach fod cyngorau cymuned yn cynnal cyfarfodydd aml-leoliad, h.y. os oes cyfarfod ffisegol, byddai angen bod trefniadau a chyfleusterau ar gael fel bod aelod a/neu aelodau'r cyhoedd yn medru ymuno yn rhithiol.

Byddai hynny yn golygu fod angen darpariaeth rhyngrwyd neu signal 4 G yn Y Ganolfan, er mwyn galluogi i hyn ddigwydd.

9.2 Adroddiad Blynyddol a Chynllun Hyfforddi

Mae'n rhaid i gynghorau cymuned bellach gyhoeddi adroddiad blynyddol a chynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer aelodau.

9.3 Cymeradwyo Asesiad Risg a Rhestr Asedau ar gyfer 2022/2023

Cymeradwywyd y Rhestr Asedau ar gyfer 2022/2023, gydag ychwanegiad o faner lwcrain y bwriedir ei phrynu am £7.99 fel ased.

Cymeradwywyd yr Asesiad Risg, ond ei fod yn cael ei ddiwygio er mwyn cyfeirio fod dogfennau i'w cadw drwy gyfrwng Dropbox sy'n costio £7.99 y mis.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Nia Povey

9.4 Hysbysfwrdd Siop Llanfrothen

Cytunodd y Cynghorydd Glyn Griffiths fynd i weld os yw'n bosibl agor yr hysbysfwrdd ger Siop Llanfrothen, neu a oes angen ei drwsio.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 25 Ebrill 2022

